

# Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol Glannau Dyfrdwy,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi  
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 04 Chwefror 2025

Dyddiad cyhoeddi: 07 Mai 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

|    |                                                                          |    |
|----|--------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....                                                  | 5  |
| 2. | Crynodeb o'r arolygiad .....                                             | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym .....                                             | 9  |
|    | • Ansawdd Profiad y Claf .....                                           | 9  |
|    | • Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....                                | 12 |
|    | • Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....                               | 17 |
| 4. | Y camau nesaf .....                                                      | 19 |
|    | Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... | 20 |
|    | Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....                              | 21 |
|    | Atodiad C - Cynllun gwella.....                                          | 25 |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Glannau Dyfrdwy, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar 04 Chwefror 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nododd yr arolygiad ymdrechion y practis mewn sawl maes, gan gynnwys hybu iechyd, gofal llawn urddas a pharch, gofal amserol a hawliau a chydraddoldeb. Caiff cleifion eu hannog i reoli eu hiechyd mewn pamffledi a thaflenni. Darperir taflenni cyngor neu ddolenni gwe hefyd yn ystod ymgynghoriadau, lle y bo'n briodol.

Yn Saesneg yr oedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth hybu iechyd, ac ni chaiff y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ei hyrwyddo. Mae gwasanaeth cyfieithu ar gael ar gyfer cleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, ond nid oes gan y practis ddolen sain ar gyfer cleifion sy'n drwm eu clyw ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw.

Gall pobl eraill glywed sgysiau wrth ddesg y dderbynfa, ond mae ystafell ymgynghori ar gael ar gyfer sgysiau cyfrinachol. Caiff preifatrwydd ac urddas eu hyrwyddo drwy gau drysau a defnyddio llenni preifatrwydd mewn ystafelloedd ymgynghori, ond dylid gosod cloeon preifatrwydd ar ddrysau ystafelloedd ymgynghori/trin a drysau cysylltiol mewnol.

Mae polisi cyfredol ar waith ar gyfer defnyddio hebryngwyr, ond nid yw'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol i fod yn hebryngwyr. Caiff y cynnig o hebryngwr ei gofnodi ar gofnodion cleifion, ond nid oes unrhyw hysbysiadau yn nodi hawliau cleifion i ofyn am hebryngwr.

Mae'r staff yn asesu anghenion unigol y cleifion ac yn sicrhau mynediad amserol i ofal gyda'r person mwyaf priodol. Nid oedd y gwasanaeth ateb ffôn yn cynghori cleifion ynghylch beth i'w wneud yn y lle cyntaf yn achos problemau difrifol, fel poen yn y frest, ond diweddarwyd hyn yn ystod ein harolygiad.

Nid oes gan y practis daflen gwybodaeth i gleifion a fyddai o gymorth i'r cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwyd. Dylid datblygu hyn a'i rhoi ar waith ar unwaith. Hefyd, llefydd parcio cyfyngedig sydd ar gael, ond mae'r mynediad i'r brif fynedfa yn dda, gyda ramp ar gyfer pobl ag anghenion symudedd. Mae'r holl gyfleusterau wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelwyd bod y safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol, gydag asesiad risg cyffredinol cyfredol yn cwmpasu tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, roedd pibellau dŵr poeth agored o amgylch ffrâm y drws i'r toiled i gleifion yn peri risg o sgaldio damweiniol, ac aethpwyd i'r afael â hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael ac roedd wedi'i wasanaethu'n ddiweddar, ond codwyd pryderon ynghylch diogelwch proses gwagio'r llawr uchaf, oherwydd yr holl gofnodion papur a oedd wedi'u storio ger llwybrau dianc.

Caiff rhybuddion diogelwch cleifion a hysbysiadau digwyddiadau o bwys eu rhannu â'r staff yn bersonol ac yn electronig. Nid oedd system galwadau brys yn y toiled i gleifion ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Hefyd, gwelsom fod lefelau'r silindrau ocsigen yn annigonol ond cymerwyd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Roedd mesurau rheoli heintiau ar waith, gan gynnwys polisi rheoli heintiau ac arweinydd nyrsio dynodedig, ond gwnaed argymhellion ar gyfer archwiliad allanol a rhoi amserlen glanhau ar waith. Roedd cyfarpar diogelu personol a hylif diheintio dwylo ar gael yn rhwydd, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau.

Roedd y systemau rheoli gwastraff yn briodol, ond roedd yn anodd glanhau'r paneli pren yn yr ardal aros, a nodwyd bod y cyfleusterau golchi dwylo yn anghyson yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin, yr oedd angen eu gwella.

Roedd polisiau rheoli meddyginiaethau ar waith, ond nodwyd sawl problem, gan gynnwys lleoliad yr oergell meddyginiaethau a bylchau mewn cofnodion tymheredd. Roedd polisiau diogelu ar waith ond nid oeddent yn cynnwys manylion cyswllt penodol ar gyfer y tîm diogelu lleol, ac nid oedd llawer o dystiolaeth wedi'i dogfennu o hyfforddiant diogelu staff.

Roedd diogelwch dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn cael ei brofi'n rheolaidd, ond nid oedd gwiriadau'r cyfarpar brys yn cael eu cynnal bob wythnos fel sy'n ofynnol.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Sicrhau bod tymheredd yr oergell storio meddyginiaethau yn cael ei wirio a'i gofnodi bob dydd
- Sicrhau bod y pibellau dŵr poeth agored yn cael eu gorchuddio er mwyn atal y risg o losgi

- Sicrhau bod mesurau ar waith i wirio dyddiadau defnyddio nwyddau traul untro a thynnu a gwaredu eitemau y mae eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae prosesau llywodraethu ac arwain y practis wedi'u strwythuro'n dda, gyda goruchwyliaeth briodol gan y tîm rheoli ac amgylchedd cefnogol i'r staff. Mae'r tîm rheoli a'r partneriaid meddygon teulu yn hawdd mynd atynt, ac mae strwythur rheoli cadarn ar waith.

Roedd cyfarfodydd tîm a thrafodaethau clinigol yn cael eu cynnal yn anffurfiol heb gymryd unrhyw gofnodion. Cynghorir y practis i ffurfioli'r broses o gymryd cofnodion mewn cyfarfodydd tîm a thrafodaethau clinigol.

Mae'r staff yn cael sesiynau arfarnu rheolaidd. Ymysg y prosesau recriwtio mae gwirio geirdaon a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, er nad oes digon o ddogfennaeth i gefnogi'r prosesau hyn. Argymhellir y dylai'r practis gadw copïau o ffurflenni cais a gwiriadau recriwtio yn ffeiliau'r staff. Mae'r staff wedi cwblhau'r rhan fwyaf o hyfforddiant gorfodol, ac awgrymir matrices hyfforddiant staff i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant a dyddiadau adnewyddu.

Ceisir adborth y cleifion yn weithredol drwy holiaduron blynyddol, a defnyddir yr adborth hwn i wella gwasanaethau. Mae'r trefniadau llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol yn ddigonol, gan sicrhau cyfrinachedd cleifion a chydymffurfiaeth â GDPR 2018.

Roedd gweithgareddau gwella ansawdd ar waith, gyda'r staff yn ymgysylltu mewn ffyrdd arloesol i ddarparu gofal, gan gynnwys cymryd rhan mewn prosiectau ar draws y clwstwr. Mae'r practis yn cydweithio â'r clwstwr, yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr ac yn darparu gwasanaethau i'r clwstwr cyfan. Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol y gymuned, ac mae ganddo gyfleoedd i atgyfnerthu ei gysylltiadau â gwasanaethau eraill gerllaw.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

#### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

##### Hybu iechyd

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu hiechyd eu hunain, drwy sicrhau bod cyngor hybu iechyd ar gael iddynt ar ffurf pamffledi a thaflenni yn yr ardal aros. Roedd y staff clinigol hefyd yn argraffu dalenni cyngor ac yn rhannu dolenni gwe perthnasol yn ystod ymgynghoriadau lle'r oedd hynny'n berthnasol.

Gall cleifion â mynediad i'r rhyngwrdd ddod o hyd i wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ar wefan y practis.

Roedd gwybodaeth am amseroedd agor y practis ar gael ar wefan y practis.

##### Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd broffesiynol, wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas â defnyddio hebryngwyr. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol i fod yn hebryngwyr.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant i fod yn hebryngwyr os byddant yn ymgymryd â'r rôl hon.**

Roedd cofnod yn nodiadau'r cleifion yn nodi eu bod wedi cael cynnig hebryngwr. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bosteri yn cael eu harddangos yn yr ystafell aros yn hysbysu cleifion am eu hawl i ofyn am hebryngwr.

**Dylai'r practis sicrhau y gellir cyrraedd hysbysiadau mewn ardaloedd aros ac ystafelloedd ymgynghori, yn cynghori cleifion am eu hawl i ofyn am hebryngwr.**

Roedd desg y dderbynfa yn yr ystafell aros ac roedd posibilrwydd y byddai eraill yn gallu clywed sgysiau a oedd yn cael eu cynnal wrth y ddesg. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai ystafell ymgynghori ar gael pe byddai angen i gleifion drafod unrhyw beth yn gyfrinachol.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd y ddrysau i'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cau pan oedd cleifion yn cael eu hadolygu, ac roedd gan yr ystafelloedd ymgynghori hefyd lenni preifatrwydd y gellid eu defnyddio pan oedd y cleifion yn dadwisgo neu'n cael eu harchwilio. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod preifatrwydd bob amser yn cael ei gynnal, rydym yn argymhell y dylai cloeon preifatrwydd gael eu gosod ar ddrysau ystafelloedd ymgynghori/trin, ac ar ddrysau cysylltiol mewnol rhwng dwy ystafell.

**Dylai'r practis osod cloeon preifatrwydd ar ddrysau ystafelloedd ymgynghori/trin ac ar ddrysau cysylltiol mewnol rhwng dwy ystafell.**

## Amserol

### Gofal amserol

Disgrifiodd y staff y trefniadau sydd ar waith i asesu cleifion gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, er mwyn nodi eu hanghenion unigol o ran gofal a thriniaeth.

Roedd prosesau ar waith i sicrhau y gallai cleifion gael gofal mewn ffordd amserol, a hynny gan y person mwyaf priodol.

Rhoddir opsiynau i'r cleifion sy'n cysylltu â'r gwasanaeth dros y ffôn er mwyn iddynt ddewis pa wasanaeth sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, nid oedd y neges wedi'i recordio ar y gwasanaeth ateb yn rhoi gwybod i'r cleifion beth i'w wneud os oeddent yn cael problemau difrifol, fel poen yn y frest, anhawster anadlu neu os oeddent yn gwaedu'n drwm. Cafodd hyn ei uwchgyfeirio i reolwr y practis yn ystod yr arolygiad, a chawsom gadarnhad yn union ar ôl yr arolygiad, bod y neges ar y gwasanaeth ateb wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys y wybodaeth hon.

Gwelsom dystiolaeth bod rheolwr y practis yn monitro lefelau boddhad cleifion gan ddefnyddio holiadur.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Nid oes gan y practis daflen gwybodaeth i gleifion ar hyn o bryd a fyddai o gymorth i'r cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwyd. Rydym yn argymhell y dylid mynd i'r afael â hyn ar unwaith a bod taflen yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Dylai'r daflen gynnwys gwybodaeth allweddol fel manylion cyswllt ac amseroedd agor, y gwasanaethau a ddarperir, opsiynau apwyntiadau, presgripsiynau a throsolwg o dîm y practis.

**Dylai'r practis ddatblygu a chyflwyno taflen wybodaeth i gleifion i helpu'r sawl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.**

Er bod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth ddefnyddiol arall ar gael yn yr ystafell aros, roedd y rhan fwyaf yn cael eu harddangos yn Saesneg yn unig.

Dywedwyd wrthym nad oedd llawer o gleifion a oedd yn siarad Cymraeg yn defnyddio'r practis, ac nad oedd unrhyw staff yn siarad Cymraeg. Roedd hyn yn golygu nad oedd y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn y practis.

**Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.**

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfieithu er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith.

Nid oedd gan y practis ddolen sain weithredol er mwyn cynorthwyo prosesau cyfathrebu â chleifion sy'n drwm eu clyw ac yn gwisgo cymhorthion clyw.

**Rhaid i'r practis osod dolen sain er mwyn helpu'r cleifion sy'n drwm eu clyw ac yn gwisgo cymhorthion clyw.**

### **Hawliau a chydraddoldeb**

Roedd llefydd parcio cyfyngedig ar gael yn y practis er bod maes parcio cyhoeddus gerllaw. Roedd y mynediad i'r brif fynedfa yn dda, gyda ramp wedi'i osod i helpu pobl ag anghenion symudedd. Roedd yr holl gyfleusterau, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ystafell aros, toiledau'r cleifion a'r ystafelloedd ymgynghori ar y llawr gwaelod.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael ynghylch cael cydsyniad dilys gan gleifion.

Cadarnhaodd ein harchwiliad o sampl o gofnodion y cleifion fod clinigwyr yn gwneud cofnod pan oedd y cleifion yn cydsynio ar lafar i archwiliad neu driniaeth.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Roedd trefniadau ar waith i helpu i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd y safleoedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol yn fewnol ac yn allanol, a gwelsom fod asesiad risg cyffredinol cyfredol ar waith, yn cwmpasu tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch, a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Er bod y rhan fwyaf o ardaloedd yn rhydd o beryglon amlwg, gwelsom fod pibellau dŵr poeth agored o amgylch ffrâm y drws i'r toiled i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod cleifion, ymwelwyr a staff yn wynebu risg o sgaldio damweiniol o'r pibellau dŵr poeth. Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a cheir rhagor o fanylion yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu bod llawr uchaf yr adeilad yn achosi risgiau sylweddol i allu ei wagio'n ddiogel os bydd tân. Cafodd hyn ei waethygu gan y nifer mawr o gofnodion papur a oedd wedi'u storio rhwng swyddfa rheolwr y practis ac unrhyw lwybr dianc.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod mynediad rhwydd i allfeydd tân a dylai ymgynghori â'r Gwasanaeth Tân i gadarnhau a yw'r mesurau diogelwch tân sydd ar waith ar y llawr cyntaf yn ddigonol ac yn ddiogel.**

Dywedwyd wrthym fod rhybuddion diogelwch cleifion a hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys yn cael eu rhannu â'r staff drwy drafodaethau wyneb yn wyneb neu drwy anfon negeseuon electronig.

Nid oedd system galw frys yn y toiled i gleifion, i geisio help os oedd angen.

**Dylai'r practis osod cloch alw frys yn y toiled i gleifion.**

Gwelsom ddau silindr ocsigen wedi'u storio yn y safle. Fodd bynnag, roedd yn bryderus gweld bod un yn llai na hanner llawn a bod y llall yn llai na chwarter llawn. Roedd hyn yn peri risg o ran y cyflenwad o ocsigen, yn enwedig os cânt eu defnyddio ar lif uchel yn ystod argyfwng. Cafodd hyn ei uwchgyfeirio i reolwr y

practis yn ystod yr arolygiad, a chawsom gadarnhad ar unwaith ar ôl yr arolygiad, fod silindrau ocsigen newydd wedi cael eu dosbarthu.

Nid oedd unrhyw arwyddion yn nodi lleoliad yr ocsigen, sy'n cynyddu'r risg o ymlosgiad os bydd tân.

**Rhaid i'r practis arddangos arwyddion clir i nodi ble y caiff yr ocsigen ei storio.**

#### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, ac roedd gan y practis nyrs ddynodedig fel arweinydd atal a rheoli heintiau. Roedd hefyd yn gyfrifol am gynnal archwiliadau perthnasol ac am hwyluso hyfforddiant y staff ar atal a rheoli heintiau. Gwnaethom argymhell y dylid trefnu archwiliad atal a rheoli heintiau allanol, annibynnol i gefnogi'r trefniadau presennol.

**Dylai'r practis drefnu bod archwiliad atal a rheol heintiau allanol, annibynnol yn cael ei gynnal i gefnogi'r trefniadau presennol.**

Roedd yr ardaloedd o'r practis y gwnaethom edrych arnynt yn lân. Mae'r practis yn defnyddio glanhawr. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw amserlen lanhau ar waith, na chofnod i ddangos bod proses lanhau wedi digwydd.

**Dylai'r practis roi amserlen lanhau ar waith a chynnal cofnod i nodi bod proses lanhau wedi digwydd.**

Roedd cyfarpar diogelu personol, fel menig a ffedogau plastig untro, ar gael i'r staff er mwyn lleihau achosion o groes-heintio.

Roedd hylif diheintio dwylo ar gael o amgylch y practis, ac roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael mewn ardaloedd clinigol ac yn y toiledau.

Roedd gwybodaeth hyfforddiant y practis yn dangos bod atal a rheoli heintiau yn rhan o'r rhaglen hyfforddiant gorfodol. Gwelsom fod pob aelod o'r staff clinigol a'r staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, ar lefel sy'n briodol i'w rôl.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan offer miniog. Fodd bynnag, nid oedd statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer staff perthnasol wedi cael ei sefydlu, sy'n amlygu'r risg nad oedd y cleifion a'r staff clinigol yn cael eu hamddiffyn rhag feirysau a gludir yn y gwaed.

**Rhaid i'r practis sefydlu statws imiwnedd Hepatitis B staff perthnasol, a chaiff asesiadau risg eu cwblhau a rhoddir camau lliniaru ar waith nes i hyn gael ei nodi a/neu os gwyddir bod statws imiwnedd yn isel.**

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Roedd arwynebau'r waliau yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin a'r ardaloedd aros wedi'u gorchuddio'n rhannol â phaneli pren o adeiladwaith tafod a rhigol. Mae hyn yn golygu ei bod yn anoddach cynnal prosesau glanhau cadarn ac atal micro-organebau rhag cytrefu.

**Dylai'r practis ystyried sut y gellir glanhau a/neu adnewyddu'r paneli pren yn briodol i leihau'r risg o groes-heintio.**

Nid oedd y cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin yn cyrraedd safonau cyfredol. Er enghraifft, nid oedd tapiau y gellir eu gweithredu â'r penelin, cefnfyrddau teils na draeniau gorlifo. Nodwyd hyn hefyd fel maes i'w wella yng nghynllun datblygu'r practis ar gyfer 2024.

**Rhaid i'r practis fynd i'r afael â'r cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin, i leihau'r risg o groes-heintio.**

#### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi sawl maes i'w gwella.

Roedd meddyginiaeth yr oedd angen ei chadw mewn oergell wedi'i storio wrth fasn ymolchi ac ardal storio mopiau. Roedd hyn yn cynyddu'r risg o groes-heintio. Nodwyd hyn hefyd fel maes i'w wella yng nghynllun datblygu'r practis ar gyfer 2024. Hefyd, nid oedd yr ystafell a oedd yn cynnwys yr oergell meddyginiaethau wedi'i chloi, ac nid oedd modd cloi yr oergell ei hun, sy'n peri risg o fynediad heb awdurdod.

**Rhaid i'r practis wneud y canlynol:**

- **Adleoli'r oergell meddyginiaethau ar unwaith, i leihau'r risg o groes-heintio**
- **Sicrhau bod clo yn cael ei osod ar y drws i'r ystafell sy'n cynnwys yr oergell meddyginiaethau a/neu ar ddrws yr oergell.**

Gwelsom fod bylchau yn y broses o wirio cofnodion tymheredd yr oergell meddyginiaethau, ac nad oedd tymheredd amgylchol yr ystafell yr oedd ynddi yn cael ei fonitro. Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn fanylach yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Gwelwyd bod rhai meddyginiaethau hefyd yn cael eu storio ar lawr yr oergell, a bod eitemau eraill yn cael eu storio'n annigonol ar y silffoedd, a all atal aer oer rhag cylchdroi yn effeithiol.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'r briodol yn yr oergell.**

#### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Fodd bynnag, nid oedd y polisïau yn cynnwys y manylion cyswllt penodol ar gyfer y tîm diogelu lleol.

**Rhaid i'r practis sicrhau y caiff holl fanylion cyswllt y tîm diogelu lleol eu cynnwys yn y polisi/gweithdrefnau diogelu.**

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth wedi'i dogfennu o hyn.

**Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu sy'n berthnasol i'w rôl, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a rhaid cadw cofnod o gydymffurfiaeth.**

Defnyddiwyd Codau Read i nodi plant sy'n destun pryderon diogelu. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd Codau Read priodol i nodi aelodau teulu'r plant hyn.

**Rhaid i'r practis sicrhau y tynnir sylw at aelodau teulu plant sy'n destun pryderon diogelu gan ddefnyddio Codau Read priodol.**

#### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom fod diogelwch dyfeisiau trydanol cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd. Cadarnhawyd bod cyfarpar meddygol untro tafladwy yn cael ei ddefnyddio lle y bo'n briodol.

Roedd gweithdrefnau ar waith yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion, ac roedd system ar waith i wirio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys. Fodd bynnag, roedd y cyfarpar brys yn cael ei wirio bob mis yn hytrach na bob wythnos, fel y nodwyd yn safonau ansawdd y Cyngor Adfywio ar gyfer gofal sylfaenol. O ganlyniad, gwelsom fod eitemau yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio wedi cael eu storio ar y troli brys. Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn fanylach yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

## Effeithiol

### Gofal effeithiol

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i gefnogi'r ffordd roedd y practis yn cael ei weithredu a chawsom wybod eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom sampl o gofnodion y cleifion, ac roedd y cofnodion hynny yn drefnus iawn. Roedd y cofnodion yn cynnwys manylion am y clinigydd a digon o fanylion am y canfyddiadau clinigol a'r gofal/triniaeth a roddir i bob claf.

### Cofnodion cleifion

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Gwnaethom edrych ar gofnodion wyth claf a gwelsom fod system rheoli cofnodion effeithiol ar waith, gan gynnal eu diogelwch i atal mynediad heb awdurdod. Roedd cofnodion y cleifion yn gyfredol, yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da, ac roeddent yn dangos bod cydsyniad claf wedi'i gael pan fo'n briodol.

## Effeithlon

### Effeithlon

Roedd prosesau ar waith i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Gwelsom enghreifftiau da o reoli salwch aciwt a chronig, a naratif clir â thystiolaeth o brosesau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf.

Disgrifiodd y staff systemau priodol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau o bwys a dysgu ohonynt ac o weithgareddau archwilio, megis gwella ymarfer yn dilyn archwiliadau o wrthfotigau.

Cadarnhaodd y staff clinigol fod proses gynhwysfawr ar waith ar gyfer derbyn a rhannu ymarfer newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chanllawiau NICE newydd neu ddiwygiedig.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd y broses o oruchwyllo'r gwasanaeth gan y rheolwyr yn briodol, a dywedodd y staff wrthym fod rheolwr y practis a phartneriaid y meddyg teulu yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol.

Roedd strwythur rheoli cadarn ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir. Mae Rheolwr y Practis a'i ddirprwy yn gweithio bob dydd ac yn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Nodwyd gennym fod prosesau wedi'u diffinio ar waith er mwyn sicrhau y cynhelir ffocws ar welliant parhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi'r staff i gwrdd yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol a oedd yn gysylltiedig â darparu gofal i'r cleifion. Fodd bynnag, oherwydd maint y practis a'r nifer bach o staff a gyflogir, mae'r cyfarfodydd a'r trafodaethau hyn yn dueddol o ddigwydd yn anffurfiol heb gymryd cofnodion.

**Rhaid i'r practis ffurfioli'r broses o gymryd cofnodion mewn cyfarfodydd tîm a thrafodaethau clinigol a'u rhannu â'r staff fel sy'n briodol.**

Roedd y staff yn barchus ac yn gwrtais, a gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion ac a oedd yn gwbl ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff i'w harwain yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd o'u perfformiad yn y gwaith.

Dywedwyd wrthym fod y broses recriwtio staff yn cael ei chynnal drwy sefydliad allanol. Gwnaethom drafod y broses â rheolwr y practis a gadarnhaodd fod prosesau recriwtio priodol yn cael eu dilyn, a oedd yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar staff ar lefel sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt. Fodd bynnag, nid oedd llawer o dystiolaeth ar ffeiliau'r staff i gefnogi hyn.

Rhaid i'r practis gadw copïau o ffurflenni cais a gwiriadau recriwtio ar ffeiliau staff unigol, ynghyd â chofnod o'u rhif tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd y wybodaeth a welsom yn y ffeiliau staff yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Gwnaethom argymhell y dylid rhoi matrices hyfforddiant staff ar waith er mwyn nodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant ac unrhyw ddyddiadau adnewyddu.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwnaethom drafod y dull ar gyfer mynd ati i gael adborth gan gleifion, sef dosbarthu holiaduron blynyddol i'r cleifion. Trafodir adborth cleifion â'r staff er mwyn gwella neu ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach.

## Gwybodaeth

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd trefniadau digonol ar waith ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR).

## Dysgu, gwella ac ymchwil

### Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod y staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd drwy ddatblygu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal, a'u rhoi ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys cymryd rhan mewn prosiectau ar draws y clwstwr cyfan.

## Dull systemau cyfan

### Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth lle'r oedd y practis yn cydweithio fel rhan o'r clwstwr meddygon teulu. Roedd staff yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr ac yn darparu gwasanaethau i'r clwstwr cyfan.

Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol y gymuned ac mae amrywiaeth eang o wasanaethau eraill gerllaw. Felly, mae cyfleoedd ychwanegol ar gael i'r practis gryfhau ei gysylltiadau â'r gymuned.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                                                                                                               | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion                                                             | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder                                       | Sut cafodd y pryder ei ddatrys                                                                                                                         |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Nid oedd y neges wedi'i recordio ar y gwasanaeth ateb yn rhoi gwybod i'r cleifion beth i'w wneud os oeddent yn cael poen yn y frest, anhawster anadlu ac ati | Mae hyn yn golygu efallai nad yw'r cleifion yn cael y gofal brys sydd ei angen arnynt a allai achosi niwed iddynt. | Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio i reolwr y practis yn ystod yr arolygiad. | Cawsom gadarnhad gan reolwr y practis yn union ar ôl yr arolygiad fod y neges ar y gwasanaeth ateb wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys y wybodaeth hon. |
| Roedd dau silindr ocsigen yn cael eu storio ar y safle. Fodd bynnag, gwelwyd bod un yn llai na hanner llawn a bod y llall yn llai na chwarter llawn.         | Gallai'r cyflenwad o ocsigen redeg allan os byddai'n cael ei ddefnyddio mewn argyfwng.                             | Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio i reolwr y practis yn ystod yr arolygiad. | Cawsom gadarnhad ysgrifenedig gan reolwr y practis, yn union ar ôl yr arolygiad, fod silindrau ocsigen newydd wedi cael eu dosbarthu.                  |

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Glannau Dyfrdwy

Dyddiad yr arolygiad: 04/02/25

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                                                  | Safon / Rheoliad                   | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                           | Swyddog cyfrifol | Amserlen  |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|-----------|
| <p>1. Ni chafodd AGIC sicrwydd bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer gwirio nwyddau traul yn y practis.</p> <p>Gwnaethom edrych ar y troli brys yn ystafell ymgynghori/trin y Cynorthwydd Gofal lechyd a gwelsom eitemau traul, fel chwistrellau, nodwyddau, masg ocsigen, tiwbiau ocsigen ac ampylau dŵr ar gyfer</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod mesurau ar waith i wirio dyddiadau defnyddio nwyddau traul untro yn rheolaidd</li> <li>Tynnu a gwaredu eitemau y mae eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio.</li> </ul> | Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | <p>Caiff y dyddiadau defnyddio ar feddyginiaethau eu gwirio bob mis a bob amser cyn iddynt gael eu defnyddio.</p> <p>Am fod dyddiadau rhai nwyddau traul yn ein blwch brys wedi mynd heibio. Mae'r practis bellach wedi rhoi taflen rhestr wirio ar waith y bydd nyrs y practis neu'r Cynorthwydd Gofal</p> | Philip Evans     | 1 wythnos |

|    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                          |                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |              |           |
|----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------|
|    | chwistrellu yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio. Roedd hyn yn peri risg o niwed i'r cleifion.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                          |                                    | iechyd yn ei chwblhau bob mis.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |              |           |
| 2. | <p>Ni chafodd AGIC sicrwydd bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer gwirio a chofnodi tymheredd yr oergell storio meddyginiaethau.</p> <p>Gwnaethom adolygu cofnodion tymheredd yr oergell meddyginiaethau a gwelsom adegau pan nad oedd y darlleniadau tymheredd wedi cael eu cofnodi.</p> <p>Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod tymheredd yr oergell o fewn yr amrediad i gynnal hyfywedd rhai meddyginiaethau a brechlynnau. Gall hyn</p> | Mae angen i AGIC gael manylion ar sut y bydd y practis yn sicrhau bod tymheredd yr oergell storio meddyginiaethau yn cael ei wirio a'i gofnodi bob dydd. | Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | <p>Caiff tymheredd ein hoergell ei wirio ddwywaith y dydd a'i gofnodi gan ein staff. Mae gennym declyn cofnodi data yn yr oergell a gaiff ei adolygu bob 3 mis.</p> <p>Oherwydd absenoldeb staff, mae'n ymddangos bod rhai darlleniadau wedi cael eu colli. Mae'r holl staff wedi cael gwybod am hyn, a gwneir trefniadau cyflenwi addas ar gyfer gwirio tymheredd yr oergell pan fydd aelodau o'r staff yn absennol.</p> | Philip Evans | 1 wythnos |

|    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                        |                                    |                                                                                             |              |             |
|----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-------------|
|    | effeithio ar ddiogelwch cleifion.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                        |                                    |                                                                                             |              |             |
| 3. | <p>Ni chafodd AGIC sicrwydd bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheoli'r risg o niwed i gleifion, ymwelwyr a staff.</p> <p>Yn ystod taith o amgylch y practis, gwelsom fod pibellau dŵr poeth agored o amgylch ffrâm y drws i'r toiled i gleifion yn yr ardal aros. Roedd hyn yn golygu bod cleifion, ymwelwyr a staff yn wynebu risg o niwed pe byddai eu croen yn cyffwrdd â'r pibellau dŵr poeth.</p> | Rhaid i'r practis sicrhau bod y pibellau dŵr poeth agored yn cael eu gorchuddio'n ddiogel er mwyn atal y risg o losgi. | Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | Mae adeiladwr lleol wedi cael ei gontractio a bydd yn gwneud y gwaith yn y bythefnos nesaf. | Philip Evans | 1-2 wythnos |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): PHILIP EVANS

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 07/02/2025

## Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Glannau Dyfrdwy

Dyddiad yr arolygiad: 04/02/25

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater |                                                                                                           | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                 | Safon / Rheoliad                       | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                | Swyddog cyfrifol                 | Amserlen       |
|-----------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|----------------|
| 1.                    | Nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol i fod yn hebryngwyr.                                  | Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant i fod yn hebryngwyr os byddant yn ymgymryd â'r rôl hon.                                      | Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn | Hyfforddiant ffurfiol mewn i gael ei gynnal yn ystod yr amser gwarchodedig nesaf | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | 3 mis          |
| 2.                    | Nid oedd unrhyw hysbysiadau yn yr ystafell aros yn hysbysu cleifion am eu hawl i ofyn am hebryngwr.       | Dylai'r practis sicrhau y gellir cyrraedd hysbysiadau mewn ardaloedd aros ac ystafelloedd ymgynghori, yn cynghori cleifion am eu hawl i ofyn am hebryngwr. |                                        | Poster i hebryngwyr yn yr ardal aros                                             | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |
| 3.                    | Nid oedd cloeon preifatrwydd wedi'u gosod ar y drysau sy'n arwain i'r ystafelloedd ymgynghori/trin nac ar | Dylai'r practis osod cloeon preifatrwydd ar ddrysau ystafelloedd ymgynghori/trin ac ar                                                                     |                                        | Bydd rheolwr y practis yn gwneud ymholiadau ar gyfer gosod cloeon preifatrwydd   | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | 1 mis          |

|    |                                                                                                                                    |                                                                                                                         |  |                                                                                                             |                                  |                |
|----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|----------------|
|    | y drysau cysylltiol mewnol sy'n cysylltu'r ystafelloedd ymgynghori/tri.                                                            | ddrysau cysylltiol mewnol rhwng dwy ystafell.                                                                           |  |                                                                                                             |                                  |                |
| 4. | Nid oes gan y practis daflen gwybodaeth i gleifion a fyddai o gymorth i'r cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd.  | Dylai'r practis ddatblygu a chyflwyno taflen wybodaeth i gleifion i helpu'r sawl sydd wedi'u <b>hallgáu'n</b> ddigidol. |  | Mae gennym daflen gwybodaeth i gleifion ar waith eisoes?                                                    | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |
| 5. | Nid oedd y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn y practis.                                                | Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.                    |  | Rydym wedi archebu posteri dwyieithog o <a href="#">Adnoddau Gwybodaeth Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru</a> | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |
| 6. | Nid oedd gan y practis ddolen sain er mwyn helpu'r staff i gyfathrebu â chleifion sy'n drwm eu clyw ac yn gwisgo cymhorthion clyw. | Rhaid i'r practis osod dolenn sain er mwyn helpu'r cleifion sy'n drwm eu clyw ac yn gwisgo cymhorthion clyw.            |  | Bydd rheolwr y practis yn gwneud ymholiadau ar gyfer prynu dolenn sain                                      | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | 1 mis          |
| 7. | Byddai'n anodd iawn gwagio llawr uchaf yr adeilad yn ddiogel os bydd tân. Cafodd hyn                                               | Rhaid i'r practis sicrhau bod mynediad rhwydd i allfeydd tân a dylai ymgynghori â'r Gwasanaeth Tân i                    |  | Bydd rheolwr y practis yn gwneud ymholiadau ar gyfer ymarferoldeb                                           | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | 3 mis          |

|     |                                                                                                                            |                                                                                                                                     |              |                                                                                                   |                                  |                |
|-----|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|----------------|
|     | ei waethygu gan y nifer mawr o gofnodion papur a oedd wedi'u storio rhwng swyddfa rheolwr y practis ac unrhyw lwybr dianc. | gadarnhau a yw'r mesurau diogelwch tân sydd ar waith ar y llawr cyntaf yn ddigonol ac yn ddiogel.                                   |              | a chost atodi grisiau i'r ail lawr                                                                |                                  |                |
| 8.  | Nid oedd system galw frys yn y toiled i gleifion.                                                                          | Dylai'r practis osod cloch alw frys yn y toiled i gleifion.                                                                         | Gofal Diogel | Bydd rheolwr y practis yn gwneud ymholiadau ar gyfer cael system galw frys yn y toiled i gleifion | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | 1 mis          |
| 9.  | Nid oedd unrhyw arwyddion yn nodi lleoliad yr ocsigen, sy'n cynyddu'r risg o ymlosgiad os bydd tân.                        | Rhaid i'r practis arddangos arwyddion clir i nodi ble y caiff yr ocsigen ei storio.                                                 |              | Ychwanegu lleoliad i'r drws lle caiff yr ocsigen ei storio.                                       | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |
| 10. | Nid oedd archwiliad atal a rheoli heintiau wedi'i gynnal.                                                                  | Dylai'r practis drefnu bod archwiliad atal a rheol heintiau allanol, annibynnol yn cael ei gynnal i gefnogi'r trefniadau presennol. |              | Bydd rheolwr y practis yn gwneud ymholiadau ag SRCL sy'n gwared ein gwastraff peryglus            | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | 1 mis          |
| 11. | Nid oedd unrhyw amserlen lanhau ar waith, na chofnod i ddangos bod proses lanhau wedi digwydd.                             | Dylai'r practis roi amserlen lanhau ar waith a chynnal cofnod i nodi bod proses lanhau wedi digwydd.                                |              | Cofnod glanhau wedi'i gyflwyno                                                                    | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                          |
|-----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 12. | Nid oedd statws imiwneiddio Hepatitis B staff wedi'i sefydlu.                                                                                                                                                                                                      | Rhaid i'r practis sefydlu statws imiwnedd Hepatitis B staff perthnasol, a chaiff asesiadau risg eu cwblhau a rhoddir camau lliniaru ar waith nes i hyn gael ei nodi a/neu os <b>gwyddir</b> bod statws imiwnedd yn isel. |
| 13. | Roedd arwynebau'r waliau yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin a'r ardaloedd aros wedi'u gorchuddio'n rhannol â phaneli pren o adeiladwaith tafod a rhigol. Mae hyn yn golygu ei bod yn anoddach cynnal prosesau glanhau cadarn ac atal micro-organebau rhag cytrefu. | Dylai'r practis ystyried sut y gellir glanhau a/neu adnewyddu'r paneli pren yn briodol i leihau'r risg o groes-heintio.                                                                                                  |
| 14. | Nid oedd y cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin yn                                                                                                                                                                                         | Rhaid i'r practis fynd i'r afael â'r cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafelloedd ymgynghori/trin, i leihau'r risg o groes-heintio.                                                                                      |

|                                                                                                                |                                  |                |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|----------------|
| Mae rheolwr y practis wedi e-bostio rhagor o wybodaeth i'r holl staff ar eu statws Hep B                       | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | 1 mis          |
| Mae'r glanhawr wedi nodi na chafodd broblem wrth lanhau'r pren.                                                | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |
| Bydd rheolwr y practis yn cysylltu â phlymwr i addasu'r sincipiau â thapiau y gellir eu gweithredu â'r penelin | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | 3 mis          |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                  |  |                                                                                   |                                  |                |
|-----|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------|--|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|----------------|
|     | cyrraedd safonau cyfredol e.e. tapiau y gellir eu gweithredu â'r penelin, cefnfyrddau teils, draeniau gorlifo. Nodwyd hyn eisoes fel maes i'w wella yng nghynllun datblygu'r practis ar gyfer 2024.                                                                                                                                                   |                                                                                                  |  |                                                                                   |                                  |                |
| 15. | Roedd meddyginiaeth yr oedd angen ei chadw mewn oergell wedi'i storio mewn oergell ar y llawr a oedd wedi'i lleoli wrth fasn ymolchi ac ardal storio mopiau. Roedd hyn yn cynyddu'r risg o groes-heintio a dylid ystyried adleoli'r oergell i leoliad mwy addas. Nodwyd hyn eisoes fel maes i'w wella yng nghynllun datblygu'r practis ar gyfer 2024. | Rhaid i'r practis adleoli'r oergell meddyginiaethau ar unwaith, i leihau'r risg o groes-heintio. |  | Cynhaliwyd asesiad, ac nid oedd unrhyw le yn fwy addas i'r oergell gael ei storio | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |

|     |                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                             |
|-----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 16. | Nid oedd yr ystafell a oedd yn cynnwys yr oergell meddyginiaethau wedi'i chloi ac nid oedd modd cloi yr oergell ei hun.                                                                  | Rhaid i'r practis sicrhau bod clo yn cael ei osod ar y drws i'r ystafell sy'n cynnwys yr oergell meddyginiaethau a/neu ar ddrws yr oergell. |
| 17. | Roedd rhai meddyginiaethau yn cael eu storio ar lawr yr oergell ac roedd eitemau eraill yn cael eu storio rywsut-rywsut ar y silffoedd, a all atal aer oer rhag cylchdroi yn effeithiol. | Rhaid i'r practis sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'r briodol yn yr oergell.                                                      |
| 18. | Nid oedd y polisi/gweithdrefnau diogelu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.                                                                                                 | Rhaid i'r practis sicrhau y caiff manylion cyswllt y tîm diogelu lleol eu cynnwys yn y polisi/gweithdrefnau diogelu.                        |
| 19. | Prin oedd y dystiolaeth wedi'i dogfennu o hyfforddiant diogelu staff.                                                                                                                    | Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu sy'n berthnasol i'w rôl, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu       |

|                                                                                                         |                                  |                |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|----------------|
| Rheolwr y practis i brynu clo                                                                           | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | 1 mis          |
| Mae'r nyrsys yn cadarnhau y byddant yn parhau i fonitro a sicrhau bod yr oergell yn drefnus             | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |
| Mae rheolwr y practis wedi ychwanegu manylion cyswllt y tîm diogelu lleol at y polisi a'r gweithdrefnau | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |
| Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu drwy e-ddysgu a darperir tystysgrifau iddynt                | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |

|     |                                                                                                                        |                                                                                                                                                                       |            |                                                                                                                                |                                  |                |
|-----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|----------------|
|     |                                                                                                                        | Cymru, a rhaid cadw cofnod o gydymffurfiaeth.                                                                                                                         |            |                                                                                                                                |                                  |                |
| 20. | Ni chaiff Codau Read priodol eu defnyddio fel mater o drefn i nodi aelodau teulu'r plant sy'n destun pryderon diogelu. | Rhaid i'r practis sicrhau y tynnir sylw at aelodau teulu plant sy'n destun pryderon diogelu gan ddefnyddio Codau Read priodol.                                        |            | Mae'r staff yn ymwybodol y dylid codio llythyrau a geir o'r adran diogelu yn briodol                                           | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |
| 21. | Roedd cyfarfodydd tîm a thrafodaethau clinigol yn cael eu cynnal yn anffurfiol heb gymryd unrhyw gofnodion.            | Rhaid i'r practis ffurfioli'r broses o gymryd cofnodion mewn cyfarfodydd tîm a thrafodaethau clinigol a'u rhannu â'r staff fel sy'n briodol.                          |            | Cymerir cofnodion ffurfiol yn y cyfarfodydd tîm eisoes. Mae'r practis wedi penderfynu cynnal mwy o gyfarfodydd staff ffurfiol. | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |
| 22. | Prin iawn oedd y dystiolaeth o wiriadau cyn cyflogi ar ffeiliau'r staff.                                               | Rhaid i'r practis gadw copïau o ffurflenni cais a gwiriadau recriwtio ar ffeiliau staff unigol, ynghyd â chofnod o'u rhif tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Y Gweithlu | Dylid cadw ffurflenni cais yn ffeiliau'r staff ynghyd â rhif tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd                        | Philip Evans (Rheolwr y Practis) | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Philip Evans**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 19/03/2025**